# CYNGOR SIR PENFRO

# ISADRAN DIOGELU’R CYHOEDD

# AMODAU’R DRWYDDED A CHANLLAWIAU I SIOPAU ANIFEILIAID ANWES

# Cynnwys


**1. AMODAU CYFFREDINOL**
1.1 Arddangos y Drwydded
1.2 Yr Archwiliad

**2. ADEILADAU A'R AMGYLCHEDD**
2.1 Adeiladwaith
2.2 Trwch Stocio
2.3 Sarn
2.4 Tymheredd a Gwresogi
2.5 Goleuo
2.6 Awyru
2.7 Glanweithdra
2.8 Anifeiliaid Gwyllt Peryglus (AGP)
2.9 Rheoli Plâu
2.10 Gwared gwastraff

**3. YMBORTH A MAETHIAD**
3.1 Bwyd a Diod
3.2 Storio Bwyd

**4. YMDDYGIAD ARFEROL**
4.1 Ymarfer
4.2 Ategolion
4.3 Cwmni

**5. IECHYD A LLES**
5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg
5.2 Statws Iechyd
5.3 Rheoli Clefydau
5.4 Ynysu
5.5 Goruchwyliaeth
5.6 Cynefino
5.7 Gwerthu Da Byw
5.8 Cludiant

**6. HYFFORDDI STAFF A GWYBODAETH AM DDA BYW**
6.1 Hyfforddiant
6.2 Gwybodaeth
6.3 Cyngor ar Ofalu am Anifeiliaid Anwes

**7. CADW COFNODION A GWEITHDREFNAU**
7.1 Cofrestri
7.2 Adeg Gwerthu

**8. RHAGOFALON TÂN AC ARGYFYNGAU ERAILL**
8.1 Cynllun Gwagio
8.2 Rhagofalon Tân
8.3 Deiliad Allweddi a Mynediad
8.4 Diogelwch Trydanol ac at Raid

**9. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006**
9.1 Dyletswydd Gofal
9.2 Cymdeithasu
9.3 Protocol ar Wared

**ARGYMHELLIAD**
Anodd-deb

**MATERION ERAILL PERTHNASOL I WEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG**
A – Y Drefn Apelio
B – Canllawiau Rhagofalon Tân
C – Iechyd a Diogelwch

**ATODLENNI YCHWANEGOL**
Atodlen 1 – Atodlen Anifeiliaid Gwyllt Peryglus
Atodlen 2 – Anodd-deb

## 1. Amodau Cyffredinol

| Amod y Drwydded | Canllawiau |
|---|---|
| **1.1 Arddangos y Drwydded**<br><br>**a.** Rhaid arddangos copi o’r drwydded a’i hamodau’n addas i’r cyhoedd mewn man amlwg yn, ar neu o gwmpas y Siop Anifeiliaid Anwes. | |
| **1.2 Yr Archwiliad**<br><br>**a.** Mae’r holl anifeiliaid sy’n cael eu cadw yn yr eiddo’n ffurfio’r ‘busnes o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes’ ac, fel y cyfryw, byddant yn destun archwiliadau trwyddedu. | |

## 2. Adeiladau a’r Amgylchedd

*Rhaid cadw anifeiliaid bob amser mewn llety addas i’w rhywogaeth o ran adeiladwaith, maint, tymheredd, goleuo, awyru, glanweithdra ac amddiffyn rhag niwed. Rhaid i lety ganiatáu arddangos ymddygiadau naturiol.*

| Amod y Drwydded | Canllawiau |
|---|---|
| **2.1 Adeiladwaith**<br><br>**a.** Rhaid adeiladu holl lety o ddeunyddiau y mae modd eu glanhau’n rhwydd a thrwyadl ac sy’n addas ar gyfer y | Dylai fod pwyslais o ran bod y maint a’r deunydd a ddefnyddir yn addas i’r rhywogaeth dan sylw ac yn cael ei gadw mewn cyflwr da. |

| | |
|---|---|
| rhywogaeth.<br>**b.** Rhaid peidio â chadw anifeiliaid mewn llety y gall anifeiliaid eraill neu'r cyhoedd ymyrryd ag ef, neu ganiatáu iddynt ddianc.<br>**c.** Rhaid diogelu holl lety'n ddigonol. | Dylid dylunio ac adeiladu holl lety fel bod anifeiliaid yn gallu symud yn naturiol e.e. dringo, hedfan, nofio neu neidio.<br><br>Dylai fod arwyddion i atal y cyhoedd rhag ymyrryd a chadw'r llety dan glo fel y bo'n briodol. |
| **2.2 Trwch Stocio**<br><br>**a.** Bydd y niferoedd mwyaf o anifeiliaid i'w stocio yn yr eiddo'n cael eu llywodraethu gan y llety sydd ar gael a rhaid peidio â mynd uwchlaw hynny fel sy'n cael ei ddatgan ar yr Atodlen sydd gyda'r drwydded.<br>**b.** Rhaid cynnal holl acwaria o fewn safonau dŵr gofynnol cymeradwy'r diwydiant i sicrhau ansawdd dŵr addas.<br>**c.** Rhaid cadarnhau ansawdd dŵr fel mater o drefn. | Cyfeiriwch at ganllawiau Ymddiriedolaeth Gofal Anifeiliaid Anwes ar drwch stocio ac ansawdd dŵr.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am safonau dŵr gofynnol i'w chael ar wefan Cymdeithas Fasnachol Pysgod Addurnol (OATA) www.ornamentalfish.org |
| **2.3 Sarn**<br><br>**a.** Bydd y math o sarn i'w ddefnyddio'n dibynnu ar yr anifail dan sylw. Rhaid ei darparu digon ohono er mwyn i'r anifail deimlo'n ddiogel a chynnes. | Mae angen iddo fod yn lân, sych a rhydd o arfilod a, lle bo hynny'n ymarferol, mor agos at amgylchedd naturiol y rhywogaeth ag y bo modd. |
| **2.4 Tymheredd a Gwresogi**<br><br>**a.** Rhaid cynnal tymereddau llety unigol o fewn amrediad sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth dan sylw.<br>**b.** Os caiff anifeiliaid eu harddangos yn yr awyr agored, rhaid eu hamddiffyn yn ddigonol rhag y tywydd. | Fe all y rhain gynnwys gosod thermomedrau isaf / uchaf o fewn amgylcheddau unigol, yn ôl y gofyn i sicrhau mesur tymheredd yn gywir a pharhaol.<br>Dylai hyn gynnwys cysgodi rhag gwynt, glaw neu eira a/neu'r haul ac ysglyfaethwyr os yw hynny'n briodol. |
| **2.5 Goleuo** | |

| | |
|---|---|
| **a.** Rhaid goleuo holl lety mewn ffordd sy'n addas i'r rhywogaeth.<br>**b.** Ymhob achos dylai cyfnodau goleuo ddynwared patrymau golau dydd naturiol priodol i'r rhywogaeth dan sylw. | Mae'n bwysig defnyddio goleuo penodol i rywogaeth ac mae'n arbennig o bwysig o ran rhai rhywogaethau o ymlusgiaid. Dylai fod yn addas ar gyfer y rhywogaethau hynny sy'n naturiol nosol.<br><br>Dan holl amgylchiadau dylid gofyn am gyngor arbenigol. |
| **2.6 Awyru**<br><br>**a.** Rhaid awyru llety holl dda byw'n ddigonol heb achosi ffrydiau gwynt gormodol. | Mae awyru'n bwysig fel cymorth i reoli clefydau ac atal lleithder atmosfferig gormodol. Fe all ymledu haint hedegog fod yn berygl sylweddol. Hefyd fe all lleithder gormodol neu annigonol achosi problemau iechyd eraill. |
| **2.7 Glanweithdra**<br><br>**a.** Rhaid glanhau llety mor aml ag sy'n angenrheidiol i gynnal safonau hylendid da i gyd-fynd ag amlder trosiant stoc.<br>**b.** Pan fo llety mewn rhengoedd, rhaid peidio â chaniatáu i ddŵr, bwyd neu wastraff arall fynd i'r llety islaw.<br>**c.** Rhaid glanhau a diheintio llety cyn rhoi unrhyw stoc newydd ynddo ac o leiaf bob mis fel arall. | Dylid tynnu bwyd a dŵr a ddifethwyd ar unwaith. Dylid tynnu sarn a faeddwyd yn aml (o leiaf bob dydd) er mwyn cynnal amgylchedd iach a glân. Ni fwriadwyd i hyn gynnwys systemau ailgylchredeg a hidlo mewn acwariwm. |
| **2.8 Anifeiliaid Gwyllt Peryglus**<br><br>**a.** Pan fo Anifeiliaid Gwyllt Peryglus (AGP) yn cael eu cadw yn yr eiddo, rhaid eu cadw mewn llety priodol dan glo diogel, gydag arwyddion rhybuddio, a rhaid cydymffurfio â holl amodau perthnasol Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976.<br>**b.** Rhaid hysbysu'r Awdurdod Lleol o'r bwriad i gadw a/neu werthu unrhyw rywogaeth ar restr AGP.<br>**c.** Rhaid peidio â chadw'r anifeiliaid hyn cyn cael caniatâd | Dylai'r Trwyddedai fod gwbl gyfarwydd â holl ofynion Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a chadw atynt.<br><br>Cyfeiriwch at y rhestr gyfredol o Anifeiliaid Gwyllt Peryglus yn Atodlen 1. |

| | |
|---|---|
| ysgrifenedig yr awdurdod trwyddedu<br>**d.** Bydd yr anifeiliaid hyn yn cael eu harchwilio fel pe byddent yn cael eu cadw dan drwydded AGP.<br>**e.** Pan fo AGP yn cael eu cadw ar werth, rhaid bod rhybudd yn cynghori darpar gwsmeriaid o'r angen i gael trwydded AGP cyn eu prynu.<br>**f.** Rhaid darparu asesiad risg priodol ar gyfer y rhywogaethau AGP sydd i'w cadw i'r awdurdod trwyddedu cyn cael caniatâd. | |
| **2.9 Rheoli Plâu**<br><br>**a.** Rhaid cymryd holl ragofalon angenrheidiol i atal dyfodiad cnofilod, trychfilod a phlâu eraill i'r eiddo (ac eithrio'r rhai i'w gwerthu neu ar gyfer porthiant).<br>**b.** Rhaid bod â chynllun rheoli fermin a'i ddilyn. | Fe all bod â chontract gyda chwmni rheoli plâu ar gyfer ymweliadau rheolaidd ddigoni hyn. |
| **2.10 Gwared Gwastraff**<br><br>**a.** Rhaid storio holl garthion a sarn a faeddwyd mewn cynwysyddion anhydraidd gyda chaeadau tynn.<br>**b.** Rhaid symud carthion, sarn a faeddwyd a gwastraff bwyd o'r eiddo'n rheolaidd, o leiaf bob wythnos, a'u gwared i foddhad yr awdurdod lleol priodol ac yn unol â rheoliadau a rheolaeth dda ar wastraff.<br>**c.** Yn yr un modd, rhaid gwared holl stoc marw mewn dull priodol.<br>**d.** Rhaid cadw holl gynwysyddion mewn cyflwr glân. | Dylai eiddo gynnal contract ar gyfer hyn gyda chwmni priodol a chadw at reoliadau'r awdurdod lleol.<br><br>Wrth aros cyn symud carthion a sarn a faeddwyd o'r eiddo, dylid eu storio mewn ffordd sy'n lleihau perygl arogleuon a phlâu i'r eithaf.<br><br>Dylai fod trefniadau priodol ar gyfer symud anifeiliaid marw o'r eiddo. |

## 3. Ymborth a Maethiad

*Rhaid i anifeiliaid gael digon o fwyd addas ar gyfer y rhywogaeth, priodol i'w hanghenion ac ar adegau addas.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **3.1 Bwyd a Diod**<br><br>**a.** Rhaid i holl anifeiliaid gael ymborth addas ar gyfer y rhywogaeth a'r oed.<br>**b.** Rhaid newid bwydydd darfodus bob dydd.<br>**c.** Rhaid bod dŵr glân, ffres ar gael bob amser a'i newid bob dydd o leiaf.<br>**d.** Rhaid gallu glanhau a diheintio dysglau bwyd a diod yn rhwydd a rhaid eu gosod i leihau halogiad ysgarthol gymaint â phosibl.<br>**e.** Rhaid darparu nifer digonol o ddysglau ar gyfer nifer yr anifeiliaid er mwyn arbed porthi cystadleuol a galluogi eu glanhau'n rhwydd o leiaf unwaith y dydd. | Mae angen rhoi sylw arbennig i'r cyfnodau mwyaf priodol a'r math o fwyd i'w roi i bob anifail, gan ddibynnu ar oedran, grŵp rhywogaeth ac unrhyw ofynion fitaminau a mwynau ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau maethiad sylfaenol ac i ddiwallu anghenion iechyd e.e. mae cwningod yn gofyn cyflenwad cyson o wair ffres i gynnal iechyd deintyddol a gastroberfeddol.<br><br>Mae halogiad ysgarthol a throethol yn creu perygl sylweddol i iechyd; dylid symud a glanhau unrhyw ddysglau bwyd neu ddiod a faeddwyd ar unwaith.<br><br>Dylid glanhau holl ddysglau'n drwyadl cyn eu symud rhwng grwpiau gwahanol o anifeiliaid. |
| **3.2 Storio Bwyd**<br><br>**a.** Rhaid storio holl fwyd, ac eithrio bwyd byw, ar gyfer porthi da byw yn yr eiddo mewn cynwysyddion caeëdig anhydraidd.<br>**b.** Rhaid clirio unrhyw fwyd a gollwyd yn brydlon rhag denu fermin.<br>**c.** Rhaid cadw'r cynwysyddion ac offer sy'n cael eu defnyddio ar gyfer porthi mewn cyflwr glân. | Rhaid glanhau cynwysyddion cadw bwyd yn drwyadl rhwng sypiau o fwyd, a rhaid golchi offer bwydo ar ôl pob defnydd. |

## 4. Ymddygiad Arferol

*Rhaid cadw pob rhywogaeth mewn amgylchedd sy’n galluogi iddynt ddangos ymddygiadau arferol a darparu ar gyfer ymarfer digonol e.e. cloddio, ymdrochi, dringo a chuddio.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **4.1 Ymarfer**<br><br>**a.** Rhaid bod cyfleusterau ymarfer ar gael i’r anifeiliaid pan fo hynny’n briodol. | Rhaid i anifeiliaid allu dangos patrymau ymddygiad arferol ac fe all hyn ofyn darparu lle addas i ymarfer a/neu ategolion priodol.<br><br>Yn achos cŵn bach, rhaid darparu ffald ymarfer a rhaid i gathod bach gael amgylchedd aml-lefel).<br><br>Pan fo’n berthnasol, dylid defnyddio cyfleusterau ymarfer bob dydd a dylid llunio trefnau ymarfer ar gyfer y rhai fyddai’n elwa ar ymarfer ychwanegol oddi allan i’w trigfan arferol. |
| **4.2 Ategolion**<br><br>**a.** Rhaid darparu ategolion i gyfoethogi’r amgylchedd a rhaid iddynt fod yn addas a digonol i’r rhywogaeth. | Dylid darparu cyfleusterau digonol ar gyfer rhywogaethau sy’n mwynhau preifatrwydd, fel bod pob anifail yn gallu bod ar wahân ar yr un pryd. Rhaid darparu clwydi digonol i holl adar allu clwydo ar yr un pryd.<br><br>Dylid darparu swbstrad (gwasarn caets) ac offer caets digonol penodol i rywogaethau fel bod modd iddynt ymddwyn yn naturiol (e.e. deunyddiau ar gyfer rhywogaethau turio, canghennau ar gyfer rhywogaethau sy’n dringo / byw mewn coed ac ati). |
| **4.3 Cwmni**<br><br>**a.** Rhaid cadw anifeiliaid mewn grwpiau cymdeithasol sy’n addas i ddiwallu eu hangen am gwmni.<br>**b.** Rhaid i drwyddedeion ystyried cystadleuaeth ac ymddygiad ymosodol o fewn grwpiau, sydd angen ei | Dylid cadw anifeiliaid (oni bai eu bod o rywogaethau unig) mewn grwpiau sy’n lleihau cyfleoedd magu rywsut-rywsut i’r eithaf.<br><br>Nid yw cwningod a moch cwta’n hollol gydnaws ac mae’n well |

| | |
|---|---|
| osgoi.<br>**c.** Rhaid cadw rhywogaethau ar wahân oni bai y profwyd eu cydnawsedd. | peidio’u cyd-letya, e.e. gofynion maethol gwahanol a phosibilrwydd bwlio / ymddygiad ymosodol a all gynyddu wrth iddynt aeddfedu. |

**<u>5. Iechyd a Lles</u>**

*Rhaid i holl stoc i’w werthu fod yn iach i’r graddau y mae modd penderfynu o fewn rheswm heb archwiliad milfeddygol. Rhaid i unrhyw anifail gwael neu anafedig gael triniaeth a gofal priodol ar unwaith. Rhaid gofyn am gyngor milfeddygol pan fo angen.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg**<br><br>**a.** Rhaid cofrestru pob eiddo gyda milfeddyg. | Yn ddelfrydol, milfeddyg lleol sy’n arbenigo yn y rhywogaethau sy’n cael eu cadw a’u gwerthu yn y siop anifeiliaid anwes (anifeiliaid bach / ymlusgiaid ac ati pan fo’n berthnasol). |
| **5.2 Statws Iechyd**<br><br>**a.** Rhaid gwneud archwiliad dyddiol o bob anifail i chwilio am unrhyw arwyddion o boen, dioddefaint, anaf neu afiechyd.<br>**b.** Rhaid i unrhyw anifail gwael neu anafedig gael triniaeth a gofal priodol ar unwaith. Dylid gofyn am gyngor milfeddygol pryd bynnag y bydd angen.<br>**c.** Rhaid peidio â rhoi unrhyw anifail sy’n cael triniaeth filfeddygol ar ddangos i’w werthu cyn gorffen triniaethau a’r anifail wedi gwella’n llwyr. | Mae ‘Dyletswydd Gofal’ ar geidwaid dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, gydag Adran 9 yn diffinio’r angen i roi ei ‘bum rhyddid’ i anifail. Un o’r rhain yw’r angen i’w warchod rhag *Poen, Dioddefaint, Anaf ac Afiechyd*.<br><br>Os yw’n ymarferol, dylai hyn fod oddi ar lawr y siop i alluogi gwella’n ddistaw ac i atal rhag gwerthiant anfwriadol. Lle nad oes modd gwneud hyn, fel lleiafswm dylai fod rhybudd yn dweud ‘dim ar werth’/ ‘dan driniaeth ar hyn o bryd’. |

| | |
|---|---|
| **5.3 Rheoli Clefydau**<br><br>**a.** Rhaid cymryd holl ragofalon rhesymol i atal afiechyd rhag dechrau a lledaenu.<br>**b.** Rhaid peidio â dod â na chadw yn yr eiddo unrhyw anifail sy'n dioddef, neu a allai fod wedi dod i gysylltiad ag unrhyw anifail sy'n dioddef, unrhyw glefyd heintus neu ymledol, neu sy'n llawn arfilod, heb ei gadw ar wahân yn effeithiol.<br>**c.** Rhaid darparu cyfleusterau addas i'r staff a'r cyhoedd olchi a/neu lanhau eu dwylo. | Dylai holl anifeiliaid gael brechiadau priodol i'r rhywogaeth lle bo gofyn ac yn ôl cyngor milfeddyg y trwyddedai. Dylid trosglwyddo unrhyw gofnod brechu i'r prynwr (e.e. cŵn bach, cathod bach, ffuredau ac ati).<br><br>Dylai rhagofalon gynnwys cadw grwpiau anifeiliaid newydd gyrraedd mewn cwarantin effeithiol. |
| **5.4 Ynysu**<br><br>**a.** Rhaid darparu cyfleusterau addas a digonol i ynysu anifeiliaid sy'n sâl. | O ddewis, o olwg y cyhoedd i leihau straen i'r eithaf.<br><br>Mae angen i'r cyfleusterau fod yn briodol i'r rhywogaeth, math o salwch neu anaf a bod yn ffafriol i gynorthwyo gwella i'r eithaf. Dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, dylid gofyn am gyngor milfeddygol. |
| **5.5 Goruchwyliaeth**<br><br>**a.** Rhaid rhoi sylw i holl dda byw ar gyfnodau rheolaidd, priodol i'r rhywogaeth.<br>**b.** Ni fydd hyn yn anamlach na dyddiol dan unrhyw amgylchiadau.<br>**c.** Lle mae grwpiau cymdeithasol yn cyd-fyw, rhaid cadw golwg arnynt bob dydd am arwyddion ymddygiad ymosodol neu fwlio.<br>**d.** Rhaid i holl dda byw sydd ar werth fod yn hygyrch a hawdd i staff eu harchwilio. | Mae 'rhoi sylw iddynt' yn cynnwys: cadarnhau lles cyffredinol; porthi / dyfrio; glanhau'r cynefin; a'u trin fel y bo'n berthnasol.<br><br>Lle bo grwpiau cymdeithasol o anifeiliaid yn cyd-fyw, fe all ymddygiad ymosodol a bwlio ddatblygu. Rhaid cadw golwg gofalus ar y grwpiau hyn fel bod modd gweld unrhyw broblemau ar y cyfle cyntaf a chymryd camau cywirol i atal anafiadau neu straen diangen.<br><br>Mae angen i bwy bynnag sy'n arolygu fod â dealltwriaeth gadarn o ymddygiadau'r anifeiliaid sy'n cyd-fyw a chael digon o amser i'w gwylio er mwyn gallu canfod unrhyw arwyddion cynnar o broblem. |

| | |
|---|---|
| | |
| **5.6 Cynefino**<br><br>**a.** Rhaid i holl anifeiliaid gael cyfnod cynefino priodol cyn eu cynnig ar werth.<br>**b.** Rhaid i hyn fod yn ddim llai na chyfnod o 48 awr. | Mae angen asesu'r cyfnod gofynnol ar sail rhywogaethau unigol (fe all fod yn fwy na 48 awr). Byddem yn argymell yn gryf bod y cyfnod cynefino'n cael ei dreulio o olwg y cyhoedd.<br><br>Diben y cyfnod cynefino yw caniatáu i'r rhywogaethau arbennig ddod dros eu cludiant a chaniatáu amser i sicrhau eu bod yn addas i'w gwerthu. (Fe all straen y daith fod wedi gwaethygu unrhyw fater iechyd sylfaenol.) |
| **5.7 Gwerthu Da Byw**<br><br>**a.** Rhaid peidio â gwerthu unrhyw famolyn na derbyn un o gyflenwr heb ei ddiddyfnu neu, os diddyfnwyd, nad yw'n ddigon hen i fod wedi'i ddiddyfnu. Yn achos creaduriaid eraill, rhaid iddynt allu porthi.<br><br>**b.** Rhaid peidio â chynnig ar werth unrhyw anifeiliaid gydag annormaledd amlwg, arwyddocaol a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd eu bywydau. Os bydd amheuaeth, rhaid gofyn am gyngor milfeddygol. | Mae mamolion ifanc yn gofyn cymorth maethol ac ymddygiadol eu mamau. Gallai colli'r cymorth hwn yn rhy gynnar ym mywyd y mamolion ifanc fod yn niweidiol i'w hiechyd a'u ffyniant.<br><br>Yn yr achos hwn fe all cyngor milfeddygol gynnwys ewthanasia. Nid yw anifail i'w ddifa ar unrhyw gyfrif heblaw mewn ffordd drugarog ac effeithiol. Dan holl amgylchiadau bron dylai milfeddyg wneud hyn. |
| **5.8 Cludiant**<br><br>**a.** Rhaid trosglwyddo da byw i brynwyr mewn cynwysyddion cadarn, addas gydag awyru digonol ar gyfer y daith ddisgwyliedig.<br>**b.** Wrth dderbyn da byw, rhaid i drwyddedai wneud pob ymdrech i sicrhau y cânt eu cludo mewn ffordd addas. | Dylai'r manwerthwr gynghori'r prynwr ynghylch y dull gorau o gludo'r anifeiliaid a brynwyd gartref i leihau straen i'r eithaf.<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio gofynion sicrhau 'Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo'. Gallwch ofyn i'ch arolygydd trwyddedu am |

| | |
|---|---|
| **c.** Rhaid cludo unrhyw dda byw sy'n dod oddi wrth gyflenwr neu sy'n cael eu trosglwyddo i brynwr yn unol â'r ddeddfwriaeth ac argymhellion cyfredol. | fanylion y rheoliadau cyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys caetsys wedi'u gosod yn ddiogel ac awyru addas, yn ogystal â'r gofyniad i ddal Awdurdod Cludwyr. |

## 6. Hyfforddiant Staff a Gwybodaeth Ynghylch Da Byw

*Mae disgwyl i staff sy'n gweithio mewn amgylchedd siop anifeiliaid anwes fod â rhywfaint o wybodaeth. Mae angen i holl staff fod yn gymwys i ofalu am yr anifeiliaid sy'n cael eu cadw yn yr eiddo a chynnig cyngor cadarn i brynwyr ynghylch eu hanifeiliaid anwes newydd.*

| Amod y Drwydded | Canllawiau |
|---|---|
| **6.1 Hyfforddiant** | |
| **a.** Rhaid i o leiaf un aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr eiddo trwyddedig ddal Tystysgrif City and Guilds neu gymhwyster priodol arall, a bod ar gael yn ystod oriau agor. Fe all hyn gynnwys dros y ffôn.<br>**b.** Rhaid i'r rhai sydd â thrwydded eisoes ond heb gymhwyster priodol roi tystiolaeth o brofiad priodol a/neu wybodaeth cyn cynnwys rhywogaethau ychwanegol at eu rhestr.<br>**c.** Rhaid i'r trwyddedai lunio polisi hyfforddi ysgrifenedig ar gyfer holl staff parhaol, a bydd gofyn dangos bod hyfforddiant trefnus yn cael ei gynnal. | Mae cyngor manwl ar hyfforddiant a chymwysterau i'w gael drwy'r amrywiol Gymdeithasau Masnachol, ac mae modd ei addasu i'r mathau o rywogaethau dan sylw. |
| **6.2 Gwybodaeth** | |
| **a.** Nid oes hawl cadw neu werthu unrhyw anifail oni bai fod y trwyddedai neu aelod o'r staff yn gyfarwydd â gofal a lles yr anifail hwnnw.<br>**b.** Rhaid i'r trwyddedai neu gyflogai allu rhoi cyngor addas i brynwyr anifeiliaid o ran porthi, lletya, trin, ategolion | Dylai staff allu ateb cwestiynau perthnasol a gânt i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer lles yr anifail yn ei gartref newydd. |

| | |
|---|---|
| addas a gofal milfeddygol.<br>**c.** Rhaid bod Llawlyfr Sicrhau Ansawdd yr Ymddiriedolaeth Gofal Anifeiliaid Anwes neu gyfeirlyfrau priodol eraill (heblaw rhai'n cael eu cynnig ar werth) ar gael bob amser at ddefnydd staff. | |
| **6.3 Cyngor ar Ofalu am Anifeiliaid Anwes**<br><br>**a.** Rhaid bod taflenni a chyngor ar ofalu am anifeiliaid anwes ar gael yn ddi-dâl i gwsmeriaid pan fo hynny'n briodol ar adeg prynu.<br>**b.** Pan fo angen, rhaid rhoi cyngor i brynwyr ategolion o ran eu cynnal a'r defnyddio. | Fe all gwybodaeth hefyd fod ar ffurf y 'Codau Ymarfer' ar les anifeiliaid penodol fel y cyhoeddwyd gan y Llywodraeth. Mae'r rhain i'w cael mewn dull electronig o wefan Llywodraeth Cymru. |

## 7. Cadw Cofnodion a Gweithdrefnau

*Rhaid cadw neu arddangos cofnodion, rhybuddion ac unrhyw waith papur ychwanegol ar gyfer anifeiliaid fel y bo'n briodol.*

| Amod y Drwydded | Canllawiau |
|---|---|
| **7.1 Cofrestri**<br><br>**a.** Rhaid cynnal cofrestr prynu da byw yn cynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cyflenwr ar gyfer holl dda byw.<br><br>**b.** Rhaid cynnal cofrestr werthiannau ar gyfer:<br><br>(i) Cŵn bach;<br>(ii) Cathod bach;<br>(iii) Parotiaid;<br>(iv) Primatiaid; | Dylid dynodi ar wahân y rhywogaethau hynny sy'n gofyn cadw cofrestr werthiannau ar eu cyfer a chofnodi manylion y magwr a'u genedigaeth ac unrhyw gofnodion perthnasol o statws iechyd a thriniaethau milfeddygol hyd yn hyn. Dylai'r manylion hyn fod gyda'r anifail ar adeg ei werthu a dylid cadw copi ar ffeil.<br><br>D.S. *Dim ond enw a chyfeiriad y prynwr sy'n ofynnol o ran y rhywogaethau hynny sy'n cael eu cynnwys yn (vi). Nid oes gofyn eu nodi ar wahân. |

| | |
|---|---|
| (iv) Rhywogaethau sydd yn yr atodlen i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a rhaid i'r gofrestr fod ar gael i swyddogion awdurdodedig i'w harchwilio; a<br>(v) Holl rywogaethau eraill* | |
| **7.2 Adeg Gwerthu**<br><br>**a.** Nid yw unrhyw anifail i gael ei werthu i rywun dan 16 oed heblaw yng nghwmni rhiant neu warcheidwad cyfreithiol.<br>**b.** Rhaid cadw Cofrestr Wrthodiadau i nodi gwrthod gwerthu i rywun a dybiwyd oedd dan 16 oed (ac yn methu bodloni'r uchod) neu'n anaddas i gaffael rhywogaeth arbennig. | Dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, adran 11(1) *mae rhywun yn troseddu os yw'n gwerthu anifail i rywun y mae achos rhesymol i gredu sydd dan 16 oed (mae eithriadau'n berthnasol).*<br><br>Y senario gorau yw bod rhiant neu warcheidwad bob amser gyda phawb dan 16 oed i sicrhau'r cydsyniad priodol bod hyder y bydd darpariaeth ar gyfer anghenion iechyd a lles yr anifeiliaid.<br><br>Mae cofrestr wrthodiadau'n ddangosydd da bod gweithdrefn yn bodoli i ddangos ymwybyddiaeth staff o'u rhwymedigaethau o ran amodau'r drwydded a lles yr anifeiliaid dan eu gofal. Mae enghraifft o gofrestr i'w gweld yn 'Llawlyfr Sicrhau Ansawdd yr Ymddiriedolaeth Gofal Anifeiliaid Anwes'. |

## 8. Rhagofalon Tân ac Argyfyngau Eraill

*Rhaid bod rhagofalon argyfwng addas a threfnau ysgrifenedig yn bodoli ac yn hysbys i holl staff, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gwagio da byw. Rhaid i ofynion rhagofalon tân gydymffurfio ag 'Atodlen B: Rhagofalon Tân'.*

| **Amod y Drwydded** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **8.1 Cynllun Gwagio**<br><br>**a.** Rhaid arddangos cynllun gwagio mewn argyfwng mewn man amlwg sy'n hygyrch i holl staff a rhaid iddynt fod yn | Dylai hwn fanylu sut ddylai anifeiliaid, staff a'r cyhoedd wagio'r eiddo a'u cyfeirio at fan ymgynnull dynodedig os bydd tân. Ni ddylai hyn mewn unrhyw fodd roi neb mewn perygl diangen. |

| | |
|---|---|
| gyfarwydd ag ef. | |
| **8.2 Rhagofalon Tân**<br><br>**a.** Rhaid darparu a lleoli diffoddwyr tân fel y cymeradwywyd gan y swyddog atal / gwarchod rhag tân lleol.<br>**b.** Rhaid cynnal yr offer diffodd tân mewn cyflwr da.<br>**c.** Rhaid i drwyddedeion allu dangos bod rhywun cymwys yn eu cynnal.<br>**d.** Rhaid i fynedfeydd ac allanfeydd fod yn glir o rwystrau bob amser.<br>**e.** Rhaid arddangos rhif ffôn argyfwng ym mlaen y siop. | Yn achos rhagofalon tân, mae angen ystyried y canlynol hefyd: mynediad a chyflenwadau dŵr ar gyfer ymladd tân; ffordd o ddianc; arwyddion dim ysmygu; gosodiadau trydanol; offer diffodd tân; a rhybuddion.<br><br>I gael manylion llawn, cyfeiriwch at Atodlen B ynghlwm. |
| **8.3 Deiliad Allweddi a Mynediad**<br><br>**a.** Rhaid i'r trwyddedai neu ddeiliad allweddi penodedig fod o fewn pellter rhesymol i'r eiddo bob amser a bod ar gael i ymweld â'r eiddo os bydd argyfwng.<br>**b.** Rhaid rhoi rhestr o ddeiliaid allweddi i'r heddlu lleol a'r frigâd dân.<br>**c.** Pan fo eiddo siop anifeiliaid anwes yn sefyll o fewn eiddo masnachol mwy (fel marchnad dan do neu ganolfan siopa) rhaid i drwyddedai a deiliad allweddi'r eiddo allu cael mynediad i'r prif adeilad bob amser. | Os bydd argyfwng, mae angen cynllun at raid os nad oes modd cysylltu â'r trwyddedai neu reolwr y siop neu os na allant fynychu (e.e. tramor). Mae angen gweithredu'n ddiymdroi allan o oriau i fod ag unrhyw obaith o warchod yr anifeiliaid lle bo modd. Felly, rhaid bod deiliad allweddi ar gael bob amser ar unrhyw adeg arbennig.<br><br>Boed mewn argyfwng neu at ddiben sicrhau lles yr anifeiliaid, mae angen gallu cael mynediad i'r siop anifeiliaid anwes ar unrhyw adeg. |
| **8.4 Diogelwch Trydanol a Chynllun at Raid**<br><br>**a.** Rhaid i holl osodiadau a thaclau trydanol gael eu cynnal mewn cyflwr diogel a chydymffurfio â Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989.<br>**b.** Rhaid bod â chynllun digonol at raid ar gyfer methiant systemau hanfodol cynnal bywyd (e.e. toriadau trydan). | I gynorthwyo cydymffurfio â'r rheoliadau, gwelwch y nodiadau ar ddiwedd yr amodau trwyddedu.<br><br>Fe all rhai rhywogaethau ofyn ffynhonnell drydan barhaol i ddarparu'r goleuni, gwres neu gyflenwad ocsigen angenrheidiol ac efallai na fyddant yn gallu para'n fyw (o gwbl neu am yn hir iawn) yn ystod toriad trydan. Enghreifftiau fyddai system larwm i |

| | |
|---|---|
| | rybuddio'r trwyddedai o'r toriad trydan a defnyddio generadur wrth gefn. |

## 9. Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae Adran 9 y Ddeddf uchod yn rhoi dyletswydd ar bwy bynnag sy'n gyfrifol am anifail. Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhywun yn troseddu os nad yw'n cymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion yr anifail hwnnw. Er mwyn i chi gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor wedi manylu gofynion arbennig a chanllawiau sy'n orfodol i chi eu dilyn.

Lle gall fod toriad Dyletswydd Gofal dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, fe all y Cyngor, yn ôl ei ddoethineb, roi Rhybudd Gwella i gywiro'r broblem.

| **Amod y Drwydded** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **9.1 Dyletswydd Gofal**<br><br>**a.** Rhaid i holl drwyddedeion fod yn gwbl ymwybodol o gynnwys Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 o ran yr anifeiliaid sydd ganddynt yn eu siopau anifeiliaid anwes.<br>**b.** Rhaid gweld bod holl brynwyr yn gwbl ymwybodol o'u dyletswydd gofal dan Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 o ran yr anifail sydd newydd ei brynu ganddynt.<br>**c.** Rhaid i drwyddedeion ddilyn unrhyw godau lles perthnasol a gynhyrchwyd ar gyfer rhywogaethau arbennig. | Dylai'r trwyddedai hefyd hysbysu staff sy'n gweithio yn y siop anifeiliaid anwes o gynnwys y ddeddfwriaeth hon a chodau lles.<br><br>Fe all hyn fod drwy dynnu sylw prynwyr at bosteri'n dangos y ddeddfwriaeth honno o fewn y sefydliad a/neu drwy dynnu sylw at y ddeddfwriaeth honno (ynghyd ag unrhyw Godau Ymarfer perthnasol os oes rhai), naill ai drwy roi copi ohonynt i'r prynwr ar adeg gwerthu neu drwy roi manylion gwefan i'r prynwr gall lawrlwytho'r codau.<br><br>Er mor bwysig yw hi fod prynwyr yn ymwybodol o'u gofynion cyfreithiol o ran yr anifail a brynwyd, mae gan y trwyddedai a staff hefyd 'ddyletswydd gofal' tra bo yn y sefydliad ac mae'r codau ymarfer yn offeryn hynod werthfawr ar gyfer hyn. |
| **9.2 Cymdeithasu**<br><br>**a.** Dylai holl rywogaethau sy'n cael eu cynnig ar werth gael | Pan fo anifeiliaid yn debygol o gael eu hanwylo yn eu 'cartref newydd' bydd eu hanwylo (fel y bo'n briodol) gan staff yn galluogi pontio rhwyddach i'w hamgylchedd newydd ac yn helpu |

| | |
|---|---|
| cyfle i gymdeithasu'n addas gyda phobl fel y bo'n briodol, tra byddant yn yr eiddo cyn eu gwerthu. | lleihau unrhyw straen. Byddai hefyd yn fodd o ddangos a fyddai anifail unigol yn anifail anwes addas i brynwr arbennig. |
| **9.3 Protocol ar gyfer Stoc na Werthwyd**<br><br>**a.** Rhaid bod protocol ar gyfer ailgartrefu unrhyw dda byw na werthwyd.<br>**b.** Rhaid cadw cofnodion o sut a pham yr ailgartrefwyd pob anifail unigol na werthwyd i'r cyhoedd. | Fe all anifeiliaid sy'n mynd heibio'u cyfnod 'del a mwythus' fod yn anoddach eu gwerthu ac mae rhai rhywogaethau'n llai dymunol oherwydd eu natur. Fe ddaw adeg i wneud penderfyniad 'busnes' ynghylch dyfodol anifail unigol o'r fath. Ni fwriadwyd i amgylchedd siop anifeiliaid anwes fod yn ddim ond dros dro ac fe all effeithio'n feddyliol ac yn gorfforol ar lawer o rywogaethau o'u cadw'n hir mewn amgylchedd o'r fath. Bydd bod â'r protocol yn helpu rhoi tystiolaeth yr ystyriwyd lles anifail unigol.<br><br>Dylid gofyn cyngor milfeddyg a/neu gorff masnachu cydnabyddedig y diwydiant. |

| **Argymhelliad** | **Canllawiau** |
|---|---|
| **Anodd-deb**<br><br>Dylid labelu holl anifeiliaid ar werth gydag arweiniad 'anodd-deb' ar sail Atodlen 2 i weld bod prynwyr yn ymwybodol o faint gofynion pob rhywogaeth. | Mae milfeddyg arbenigol wedi cynhyrchu 'Anodd-deb' trwy sgorio rhai agweddau ar y rhywogaeth, er enghraifft: maint, hyd oes ac unrhyw ofynion arbenigol. Yna cânt eu dosbarthu'n rhywogaethau Hawdd, Cymedrol ac Anodd yn dibynnu ar eu sgôr.<br><br>Ddiben hyn yw bod yn arweiniad cyflym i ddarpar brynwyr a helpu iddynt benderfynu'n fwy deallus a fyddai rhywogaeth arbennig yn addas iddynt yn eu hamgylchiadau. Fe all hyn hefyd helpu lleihau tebygolrwydd dychwelyd, gadael neu beri unrhyw ddioddefaint i anifeiliaid. |

**MATERION ERAILL PERTHNASOL I WEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG.**

## A. Y DREFN APELIO

### Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 - Adran 1 (4)

Fe all unrhyw un a gafodd gam trwy wrthodiad awdurdod lleol i roi trwydded o'r fath, neu oherwydd unrhyw amod ar roi trwydded o'r fath, apelio at lys ynadon. Os caiff apêl o'r fath, fe all y llys roi'r fath gyfarwyddiadau mewn perthynas â mater rhoi trwydded neu, yn ôl fel y bo'n digwydd, mewn perthynas ag amodau rhoi trwydded, ag y tybia'n briodol.

## B. CANLLAWIAU RHAGOFALON TÂN

Caiff y wybodaeth ganlynol ei rhoi i drwyddedeion er mwyn cynorthwyo iddynt gydymffurfio â'r gofynion rhagofalon tân yn amodau trwyddedu'r Cyngor sy'n gofyn cymryd camau priodol er diogelu anifeiliaid os bydd tân neu unrhyw argyfwng arall.

Mae'r canllawiau'n anelu at sicrhau bod y ffordd i ddianc a rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol ar gyfer pobl. Dylid cofio y gall deddfwriaeth arall bennu'r gofynion diogelu rhag tân ar gyfer pobl.

Rhaid ystyried y materion canlynol:

1. Mynediad ar gyfer Ymladd Tân a Chyflenwadau Dŵr - Dylai fod mynediad da ar gyfer cerbydau diffodd tân (lled o 3.7m o leiaf) at bob hydrant a ffynonellau dŵr eraill a dylid darparu lloriau caled. Dylid arddangos bwrdd enw'r eiddo yn amlwg ger y fynedfa ffordd agosaf.

2. Ffordd o Ddianc - Dylid dylunio llwybrau dianc fel bod anifeiliaid yn gallu rhedeg yn syth allan o adeiladau, gyda'r cymorth dynol lleiaf. Dylid trefnu drysau ffaldau fel bod modd symud anifeiliaid allan yn gyflym a dylid osgoi troadau sydyn, rhwystrau a rampiau yn y llwybrau dianc mor bell ag y bo modd.
    a) Dylai holl eiddo fod ag allanfeydd digon llydan ac uchel i ganiatáu mynediad rhwydd at yr anifeiliaid bob amser.
    b) Dylai'r allanfeydd agor yn rhwydd o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.
    c) Os bydd angen, dylid darparu ar gyfer galw deiliad allweddi'n rhwydd.

   Mewn adeiladau uwchlaw 18 metr o hyd, neu lle caiff niferoedd sylweddol o anifeiliaid eu lletya, dylid darparu o leiaf ddwy allanfa mor bell oddi wrth ei gilydd ag y bo modd. Dylid cyfyngu pellter teithio i 45 metr.

3. Arwyddion dim ysmygu - Dylid arddangos rhybuddion dim ysmygu yng nghyffiniau holl wair a gwellt a, lle bo hynny'n ymarferol, dylid cymryd rhagofalon yn erbyn mynediad heb awdurdod yn enwedig gan blant.

4. Gosodiadau Trydanol - Dylid glanhau gosodiadau trydanol, gan gynnwys lampau, yn rheolaidd i osgoi cronni llwch. Dylid lleoli a diogelu offer trydanol, gwresogyddion ac ati, er mwyn eu cadw ar bellter diogel oddi wrth unrhyw groniad tebygol o sarn fflamadwy.

5. Offer Diffodd Tân

   a. Diffoddwyr Tân Cludadwy - Caiff y canlynol eu hargymell fel lleiafswm:

   - Mewn adeiladau gydag arwynebedd heb fod dros 200m$^2$ mae gofyn o leiaf 2 ddiffoddwr dŵr 9 litr. Mewn adeiladau dros 200 metr sgwâr rhaid darparu diffoddwr tân ychwanegol am bob 200m$^2$ ychwanegol neu ran o hynny.
   - Rhaid i ddiffoddwyr tân cludadwy ateb gofynion BS EN 3 a'u gosod a'u cynnal yn unol ag argymhellion BS 5306.
   - Gan ddibynnu ar ganlyniad eich asesiad peryglon tân, fe all fod modd lleihau hyn i un diffoddwr mewn eiddo bach iawn gydag arwynebedd llawr llai na 90m$^2$.
   - **Ni ddylid** defnyddio diffoddwyr tân sy'n cynhyrchu sŵn mawr, e.e. $CO_2$, neu gymylau mawr o bowdwr sych wrth eu gweithredu, yn agos at anifeiliaid.

   b. Pibelli Dŵr ar Rîl - Mae modd darparu pibelli dŵr ar rîl fel dewis yn lle diffoddwyr tân cludadwy. Dylai fod o leiaf un bibell ddŵr am bob 800m$^2$ o arwynebedd neu ran o hynny a dylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Fe allai pibelli ddŵr olchi fod yn dderbyniol ond bod llif cyson o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu jet dŵr i daflu 5 metr o leiaf. Rhaid i hyd pibell ddŵr ar rîl beidio â bod yn fwy na 45m a dylid ei lleoli fel bod modd mynd â'i thrwyn o fewn 6m i bob rhan o'r eiddo gwarchodedig.

6. Rhybuddion Tân - Dylai holl staff yn y sefydliad fod yn gyfarwydd â pha gamau i'w cymryd os digwydd tân. Dylai fod rhybudd amlwg, wedi'i ysgrifennu'n eglur, yn dweud pa gamau i'w cymryd os bydd tân a lleoliad y ffôn agosaf. Fe all y rhybudd hwn gynnwys y canlynol:

   "Os bydd tân, rhaid sicrhau gwagio'r adeilad dan sylw.
   Galwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn ………………}.
   Ymosodwch ar y tân gyda'r offer diffodd tân, os yw'n ddiogel gwneud hynny."
   ac ati

7. *Cyfeirnod Map O/S - Dylai cyfeirnod map yr Arolwg Ordnans fod ar gael ar gyfer yr eiddo a'i arddangos gyda'r Rhybudd Tân.*

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn gofyn bod â rhagofalon tân angenrheidiol i ddiogelu pobl berthnasol os bydd tân yn, ac yng nghyffiniau, holl eiddo y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddo.

Mae cyfrifoldeb dros gydymffurfio â'r gorchymyn ar ysgwyddau'r 'unigolyn cyfrifol'. Mewn gweithle, dyma'r cyflogwr ac unrhyw un arall a all fod â rheolaeth dros unrhyw ran o'r eiddo, e.e. y deiliad neu berchennog. Mewn holl eiddo arall, pwy bynnag sy'n rheoli'r eiddo fydd yn gyfrifol.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud y canlynol:

Gwneud Asesiad Perygl Tân, gan gofnodi ei ganfyddiadau arwyddocaol os caiff pump neu fwy o bobl eu cyflogi, os yw'r eiddo'n drwyddedig neu os oes rhybudd addasiadau mewn grym.

I gynorthwyo mwy arnoch, mae'r Canllawiau Diogelu Eiddo Anifeiliaid a Stablau rhag Tân (ISBN: 978 1 85112 884 6) i'w cael o Lyfrfa Ei Mawrhydi neu drwy wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (www.communities.gov.uk).

## C. IECHYD A DIOGELWCH

Mae cyfraith iechyd a diogelwch yn berthnasol i holl fusnesau, waeth ba mor fach. Fel cyflogwr neu rywun hunangyflogedig, rydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y rhagofalon cywir i leihau peryglon y gweithle a darparu amgylchedd gweithio diogel.

Mae llawlyfr o'r enw "Health and safety made simple". Mae'r canllawiau hyn yn gwneud bywyd yn haws i chi trwy roi'r wybodaeth sylfaenol mewn un lle am beth sydd angen i chi ei wneud. Bydd help i chi ddechrau rheoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Ar gyfer rhai gweithgareddau, fe all fod pethau ychwanegol sydd angen i chi eu gwneud i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae rhagor o gyngor i'w gael ar-lein yn www.hse.gov.uk ar bynciau penodol, fel rheoli asbestos, osgoi afiechyd o ddod i

gyswllt ag anifeiliaid ac ati, ac asesiadau risg enghreifftiol. Gallwch hefyd gysylltu â thîm iechyd a diogelwch Cyngor Sir Penfro ar 01437 775179 a gofyn am y swyddog ar ddyletswydd neu anfon e-bost atom yn health&safety@pembrokeshire.gov.uk.

Gallwch lawrlwytho taflen “Health and Safety made simple” drwy’r ddolen hon:
http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf

# Atodlen 1

# Rhestr o Anifeiliaid Gwyllt Peryglus

Gorchymyn Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (Addasiad) (Rhif 2) 2007

## MATHAU O ANIFEILIAID GWYLLT PERYGLUS

*Adran 7(5): Caiff ail golofn yr Atodlen i'r Ddeddf hon ei chynnwys fel eglurhad yn unig; os digwydd unrhyw anghydfod neu achos, dim ond y golofn gyntaf sydd i'w hystyried.*

| ***Enw gwyddonol y math*** | ***Enw neu enwau cyffredin*** |
|---|---|

**MAMOLION**

| **Bolgodogion** | |
|---|---|
| **Teulu** *Dasyuridae*:<br><br>Y rhywogaeth *Sarcophilus laniarius.* | Cythraul Tasmania. |
| **Teulu** *Macropodidae:*<br><br>Y rhywogaethau *Macropus fuliginosus, Macropus giganteus, Macropus robustus* a *Macropus rufus.* | Y cangarŵod llwyd gorllewinol a dwyreiniol, y walarŵ a'r cangarŵ coch. |

| **Primatiaid** | |
|---|---|
| **Teulu** *Cebidae:*<br><br>Holl rywogaethau heblaw rhai'r genera *Aotus, Callicebus* a *Saimiri.* | Mwncïod y byd newydd (gan gynnwys mwncïod cycyllog, udo, saci, wacari, heglog a gwlanog).<br><br>Caiff mwncïod nos (hefyd yn cael eu galw'n fwncïod llygadrwth), mwncïod titi a gwiwerfwncïod eu heithrio. |
| **Teulu** *Cercopithecidae:* Holl rywogaethau. | Mwncïod yr henfyd (gan gynnwys babwniaid, y dril, mwncïod colobws, y cïab blewog, mwncïod cynffon hir, langwriaid, macacos, y mandril, mangabeod, y patas a'r mwncïod trwynog a'r talapoin). |
| **Teulu** *Hominidae:*<br>Holl rywogaethau heblaw rhai'r genws *Homo*. | Epaod dynaidd; tsimpansïaid, bonobos, orangwtanod a gorilaod. |
| **Teulu** *Hylobatidae:* Holl rywogaethau. | Giboniaid a Sïamangod. |
| **Teulu** *Indriidae:* | Lemyriaid neidiol (gan gynnwys yr indri a siffacaod). Caiff y lemwr gwlanog ei eithrio. |

| | |
|---|---|
| Holl rywogaethau'r genera *Propithecus* ac *Indri (*caiff *Avahi laniger* ei eithrio). | |
| **Teulu** *Lemuridae*:<br><br>Holl rywogaethau heblaw rhai'r genws *Hapalemur*. | Lemyriaid mawr.<br><br>Caiff lemyriaid bambŵ neu addfwyn eu heithrio. |

| **Diddaneddogion** | |
|---|---|
| **Teulu** *Dasypodidae:*<br>Y rhywogaeth *Priodontes maximus.* | Yr armadilo enfawr. |
| **Teulu** *Myrmecophagidae:*<br><br>Y rhywogaeth *Myrmecophaga tridactyla.* | Y morgrugysor enfawr. |

| **Cigysyddion** | |
|---|---|
| **Teulu** *Canidae:*<br><br>Holl rywogaethau heblaw rhai'r genera *Alopex, Cerdocyon, Dusicyon, Otocyon, Pseudolopex, Urocyon, Vulpes* a *Nyctereutes*.<br><br>Caiff y rhywogaeth *Canis familiaris*, heblaw'r isrywogaeth *Canis familiaris dingo*, ei heithrio hefyd. | Cŵn gwyllt, bleiddiaid, jacaliaid, y blaidd myngog, ci'r llwyni a'r ci gwyllt coch.<br><br>Caiff llwynogod, racŵn-gŵn a chŵn dof (ond nid y dingo) eu heithrio. |
| **Teulu** *Felidae:*<br><br>Y cyfan heblaw—<br>(a) y rhywogaethau *Felis silvestris, Otocolobus manul, Leopardus tigrinus, Oncifelis geoffroyi, Oncifelis guigna, Catopuma badia, Felis margarita, Felis nigripes, Prionailurus rubiginosus* a *Felis silvestris catus*;<br>(b) croesiad sy'n disgyn yn unig o unrhyw un rhywogaeth neu fwy ym mharagraff (a);<br>(c) crosiad sydd ag— | Holl gathod gan gynnwys y gath gota, y gath glustddu, llewpard hela, jagwar, llewpard, llew, lincs, oselot, llew mynydd, serfal a theigr.<br><br>Caiff y canlynol eu heithrio:<br>(i) y gath wyllt, cath Pallas, y gath frith leiaf, cath Geoffroy, y codcod, y gath winau, cath y twyni, y gath droetddu, y gath frithgoch a'r gath ddof;<br>(ii) cath groesryw sy'n disgyn yn unig o unrhyw un rhywogaeth neu fwy ym mharagraff (a);<br>(iii) cath groesryw gydag un rhiant yn gath ddof a'r rhiant arall yn groesiad cenhedlaeth gyntaf o gath ddof ac unrhyw gath nad yw ym mharagraff (a);<br>(iv) unrhyw gath sy'n disgyn yn unig o unrhyw un croesiad neu fwy ym mharagraff (c); |

| | |
|---|---|
| (i) un rhiant yn *Felis silvestris catus*, a'r<br>(ii) rhiant arall yn groesiad cenhedlaeth gyntaf o *Felis silvestris catus* ac unrhyw gath nad yw ym mharagraff (a);<br>(d) unrhyw gath sy'n disgyn yn unig o unrhyw un croesiad neu fwy ym mharagraff (c) (gan anwybyddu, at ddiben penderfynu natur gyfyngedig disgyniad, rhieni a hynafiaid pellach unrhyw groesiad ym mharagraff (c));<br>(e) unrhyw gath sy'n disgyn yn unig o *Felis silvestris catus* ac unrhyw un croesiad neu fwy ym mharagraff (c) (gan anwybyddu, at ddiben penderfynu natur gyfyngedig disgyniad, rhieni a hynafiaid pellach unrhyw groesiad ym mharagraff (c)). | (v) unrhyw gath sy'n disgyn yn unig o gath ddof ac unrhyw un croesiad neu fwy ym mharagraff (c). |
| **Teulu** *Hyaenidae:*<br><br>Y cyfan heblaw'r rhywogaeth *Proteles cristatus.* | Udfilod. Caiff y blaidd daear ei eithrio. |
| **Teulu** *Mustelidae:*<br><br>Holl rywogaethau'r genera *Amblonyx, Arctonyx, Aonyx, Enhydra, Lontra, Melogale, Mydaus, Pteronura* a *Taxidea.*<br><br>Y genws *Lutra* heblaw'r rhywogaeth *Lutra lutra*.<br><br>Y rhywogaethau *Eira barbara, Gulo gulo, Martes pennanti* a *Mellivora capensis.* | Moch daear (heblaw'r mochyn daear Ewrasiaidd), dyfrgwn (heblaw'r dyfrgi Ewropeaidd) a'r taïra, y bolgi, y pysgwenci a'r ratel (neu'r melfroch). |
| **Teulu** *Ursidae:*<br><br>Holl rywogaethau gan gynnwys y rhywogaethau *Ailuropoda melanoleuca* ac *Ailurus fulgens.* | Holl eirth gan gynnwys y panda enfawr a'r panda coch. |
| **Teulu** *Viverridae:*<br><br>Pob aelod o'r genws *Civettictis.*<br><br>Pob aelod o'r genws *Viverra.*<br><br>Y rhywogaeth *Cryptoprocta ferox.* | Y cathod mwsg Affricanaidd, mawr brith, Malayaidd ac Indiaidd a'r ffosa. |

| |
|---|
| **Cyfandroediaid** |

| | |
|---|---|
| **Teulu** *Odobenidae:* Holl rywogaethau. | Y morlo ysgithrog. |
| **Teulu** *Otariidae:* Holl rywogaethau. | Morloi clustiog. |
| **Teulu** *Phocidae:*<br><br>Holl rywogaethau heblaw *Phoca vitulina* a *Halichoerus grypus.* | Gwir forloi neu forloi diglust.<br><br>Caiff y morlo cyffredin a'r morlo llwyd eu heithrio. |

| **Eliffantod** | |
|---|---|
| **Teulu** *Elephantidae:* Holl rywogaethau. | Eliffantod. |

| **Baedd Daear** | |
|---|---|
| **Teulu** *Orycteropodidae:*<br><br>Y rhywogaeth *Orycteropus afer*. | Y baedd daear. |

| **Carnolion â Bysedd Odrif** | |
|---|---|
| **Teulu** *Equidae:*<br><br>Holl rywogaethau heblaw *Equus asinus* ac *Equus caballus.* | Asynnod, ceffylau a sebras.<br><br>Caiff yr asyn a'r ceffyl dof eu heithrio. |
| **Teulu** *Rhinocerotidae:* Holl rywogaethau. | Rhinoserosod. |
| **Teulu** *Tapiridae:* Holl rywogaethau. | Tapiriaid. |

| **Carnolion â bysedd eilrif** | |
|---|---|
| **Teulu** *Antilocapridae:*<br><br>Y rhywogaeth *Antilocapra americana.* | Y cornfwch. |
| **Teulu** *Bovidae:* | Antelopiaid, buail, ychen gwyllt, gaseliaid, geifr a defaid. |

| | |
|---|---|
| Holl rywogaethau heblaw unrhyw ffurf ddof ar y genera *Bos*, *Bubalus, Capra* ac *Ovis.* | Caiff gwartheg dof, ychen, geifr a defaid eu heithrio. |
| **Teulu** *Camelidae:*<br><br>Holl rywogaethau'r genws *Camelus.* | Camelod. |
| **Teulu** *Cervidae:*<br><br>Holl rywogaethau'r genera *Alces* a *Rangifer*, heblaw unrhyw ffurf ddof ar y rhywogaeth *Rangifer tarandus.* | Yr elc a cheirw Canada neu geirw Llychlyn.<br><br>Caiff y carw dof ei eithrio. |
| **Teulu** *Giraffidae:* Holl rywogaethau | Y camel-lewpard a'r ocapi. |
| **Teulu** *Hippopotamidae:* Holl rywogaethau. | Yr hipopotamws a'r hipopotamws corrach. |
| **Teulu** *Suidae*:<br><br>Holl rywogaethau heblaw ffurf ddof ar y rhywogaeth *Sus scrofa*. | Moch yr henfyd (gan gynnwys y baedd gwyllt a'r baedd dafadennog).<br><br>Caiff y mochyn dof ei eithrio. |
| **Teulu** *Tayassuidae:* Holl rywogaethau. | Moch y byd newydd (pecarïod neu foch dŵr). |

| **Croesiadau** | |
|---|---|
| Unrhyw groesiad o fath o anifail a bennwyd (heblaw trwy eithriad) yn narpariaethau blaenorol y golofn hon pan fo o leiaf un rhiant o fath a bennwyd felly, ac unrhyw anifail gydag o leiaf un rhiant yn groesiad o'r fath.<br><br>Nid yw hyn yn cynnwys croesiad eithriedig o'r Teulu *Felidae*. | Unrhyw groesiadau mamalaidd gydag o leiaf un rhiant o fath penodedig, ac unrhyw anifail gydag o leiaf un rhiant yn groesiad o'r fath.<br><br>Nid yw hyn yn berthnasol i groesiadau cathod eithriedig. |

**ADAR**

| **Casowarïaid** | |
|---|---|
| **Teulu** *Casuariidae:* Holl rywogaethau. | Casowarïaid. |

| **Estrys** | |
|---|---|
| **Teulu** *Struthionidae:* Holl rywogaethau. | Yr estrys. |

**YMLUSGIAID**

| **Crocodeiliaid** | |
|---|---|
| **Teulu** *Alligatoridae:* Holl rywogaethau. | Aligatorod a chaimanod. |
| **Teulu** *Crocodylidae:* Holl rywogaethau. | Crocodeilod a'r gafiel gau. |
| **Teulu** *Gavialidae:* Holl rywogaethau. | Y gafiel (gafial). |

| **Madfallod a nadroedd** | |
|---|---|
| **Teulu** *Atractaspididae:*<br><br>Holl rywogaethau'r genws *Atractaspis.* | Gwiberod tyrchol a nadroedd pigfain. |
| **Teulu** *Colubridae.*<br><br>Holl rywogaethau'r genera *Malpolon* a *Thelotornis.*<br><br>Y rhywogaethau *Dispholidus typus, Rhabdophis subminiatus, Rhabdophis tigrinus, Elapomorphus lemniscatus, Philodryas olfersii, Tachymenis peruviana* a *Xenodon severus.* | Rhai nadroedd gwenwynig ôl-ysgithrog, nadroedd Montpellier a nadroedd y coed Affricanaidd (neu nadroedd brigau neu nadroedd adar Affricanaidd).<br><br>Y bwmslang, neidr wargoch dŵr croyw, y neidr deigraidd Japaneaidd (yamakagashi), neidr benddu'r Ariannin, neidr chwip werdd De America, neidr chwip Periw a gau-wiber yr Amazon. |
| **Teulu** *Elapidae:* Holl rywogaethau. | Rhai nadroedd gwenwynig blaenysgithrog gan gynnwys cobraod, nadroedd cwrel, creitiau, mambaod, nadroedd chwip a holl nadroedd gwenwynig Awstralia (gan gynnwys y gwiberod marwol). |
| **Teulu** *Hydrophiidae:* Holl rywogaethau. | Nadroedd môr. |

| | |
|---|---|
| **Teulu** *Helodermatidae:* Holl rywogaethau. | Y gila a'r fadfall leiniog (Mecsicanaidd). |
| **Teulu** *Viperidae:* Holl rywogaethau. | Rhai nadroedd gwenwynig blaenysgithrog (gan gynnwys gwiberod, y barba amarilla, y neidr gynffondrwst, y fer-de-lance, gwiberod mocasin, nadroedd rhuglo a nadroedd duon). |

**ANIFEILIAID DI-ASGWRN-CEFN**

| **Pryfed Cop** | |
|---|---|
| **Teulu** *Ctenidae:*<br><br>Y genws *Phoneutria.* | Pryfed cop crwydrol. |
| **Teulu** *Hexathelidae:*<br><br>Y genws *Atrax.* | Copyn gwe twmffat Sydney a'i berthnasau agos. |
| **Teulu** *Sicariidae:*<br><br>Y genws *Loxosceles.* | Copynnod meudwy dugoch (copynnod ffidil). |
| **Teulu** *Theridiidae:*<br><br>Y genws *Latrodectus.* | Y copynnod gweddw a pherthnasau agos. |

| **Sgorpionau** | |
|---|---|
| **Teulu** *Buthidae:* Holl rywogaethau. | Sgorpionau bwthid. |
| **Teulu** *Hemioscorpiidae:*<br><br>Y rhywogaeth *Hemiscorpius lepturus.* | Sgorpion cynffonfain y Dwyrain Canol. |

# Atodlen 2

# Anodd-deb Cadw Anifeiliaid Anwes.


## ANODD-DEB – TREFN LIWIAU

Labelu pob rhywogaeth yn y Siop Anifeiliaid Anwes yn ôl eu sgôr:

Allwedd Sgorau:

- 7 i 10 =  Anifail anwes hawdd. Anifail o faint bach i gymedrol sy'n hawdd ei letya a'i borthi ar fwydydd masnachol sydd ar gael yn rhwydd. Nid oes gofyn gwybodaeth arbenigol y tu hwnt i ofynion hwsmonaeth arferol. Mae'n ymdoddi'n dda yn amgylchedd y cartref.

- 11 i 14 =  Anifail anwes canolradd. Mae'n debygol o fod angen rhywfaint o lety arbenigol (yn aml yn gofyn gwario arian a/neu gostau cynnal sylweddol) ac fe all fod ag anghenion ymborthol pendant e.e. bwydydd trychfilod byw neu ffibr hir (gwair). Fe all addasu'n eithaf da i amgylchedd y cartref neu nid yw amgylchedd y cartref yn effeithio llawer arno, e.e. ymlusgiad mewn milodfa neu bysgodyn mewn acwariwm. Mae'r sail wybodaeth yn debygol o fod yn fwy cymhleth, e.e. deall paramedrau ansawdd dŵr sylfaenol.

- 15 + =  Anifail anwes anodd (arbenigol). Mae'n debygol o fod ag anghenion llety arbenigol dros ben, bwydydd arbenigol a/neu anodd eu cael ac anghenion amgylcheddol cymhleth, all gynnwys strwythurau cymdeithasol priodol neu gyfoethogi amgylcheddol addas. Fe all dyfu'n fawr a/neu fod yn beryglus, e.e. ymosodol neu wenwynig. Mae gofyn i'r ceidwad fod â gwybodaeth arbenigol dros ben.

| Rhywogaeth | Maint | Hyd oes | Llety | Bwyd | Ymddygiad | Ffynhonnell | Gwybodaeth | Cyfanswm | Anodd-deb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mamolion** | | | | | | | | | |
| Cwningen *Oryctolagus cuniculus* | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 (2) | **10 (11)** | Hawdd (Canolradd) |
| Mochyn cwta *Cavia porcellus* | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | **8** | Hawdd |
| Degu | 1 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 | 1 | **10** | Hawdd |
| Tsintsila | 1 | 3 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | **10** | Hawdd |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Chinchilla laniger* | | | | | | | | | |
| Bochdew Syriaidd<br>*Mesocricetus auratus* | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **7** | Hawdd |
| Bochdew Rwsiaidd<br>*Phodopus sungoris* | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | **8** | Hawdd |
| Bochdew Roborovski | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | **8** | Hawdd |
| Llygoden fawr ffansi<br>*Rattus norvegicus* | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **7** | Hawdd |
| Llygoden ffansi<br>*Mus musculinus* | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **7** | Hawdd |
| Corddraenog Affrica<br>*Atelerix spp* | 1 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | **11** | Canolradd |
| Ffured<br>*Mustela putorius furo* | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **9** | Hawdd |
| Marmoset cyffredin<br>*Callithrix jaculator* | 1 | 3 | 3 | 3 | 3 | 1 | 3 | **17** | Anodd |
| Meerkat<br>*Suricata suricatta* | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | 3 | 1 | **16** | Anodd |

**Adar**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caneri<br>*Serinus* | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | **8** | Hawdd |
| Bydji<br>*Melopsittacus undulatus* | 1 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | **9** | Hawdd |
| Parot copog<br>*Nymphoides hollandicus* | 1 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | **9** | Hawdd |
| Parot llwyd Affrica<br>*Psittacus erithicus*<br>cb (wc) | 2 | 4 | 3 | 2 | 3 (4) | 1 (3) | 2 | **17 (20)** | Anodd<br>(cb), (wc) |
| Parot bronlas Amazonas<br>*Amazona* | 2 | 4 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | **16** | Anodd |
| Macaw glas ac aur<br>*Ara* | 3 | 4 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | **16** | Anodd |
| Macaw ysgarlad<br>*Ara* | 3 | 4 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | **13** | Anodd |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Macaw Hahn | 1 | 4 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | **11** | Canolradd |
| Maina | 2 | 3 | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | **13** | Canolradd |
| Gwehydd rhesog | 1 | 3 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | **10** | Hawdd |
| Pinc Bengâl | 1 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | **9** | Hawdd |
| Twcan Toco | 3 | 2 | 2 | 3 | 2 | 1 | 2 | **15** | Anodd |

**Ymlusgiaid**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Geco llewpard *Eublepharus macularius* | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **10** | Canolradd |
| Geco cribog *Rhacodactylus ciliatus* | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **10** | Canolradd |
| Geco tocái *Gekko gekko* | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **10** | Canolradd |
| Draig farfog *Pogona vitticeps* | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 2 | **10** | Canolradd |
| Draig ddŵr Chineaidd *Amphibolurus* | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **11** | Canolradd |
| Madfall y muriau *Podarcis muralis* | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | **11** | Canolradd |
| Monitor y Safana *Varanus exanthimaticus* | 4 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | **17** | Anodd |
| Neidr yr ŷd *Elaphe guttata* | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **14** | Canolradd |
| Peithon bel (frenhinol) *Python regius* | 2 | 4 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **15** | Anodd |
| Peithon Byrma *Python morulus bivittatus* | 4 | 4 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **17** | Anodd |
| Marchsarff *Lampropeltis* | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **14** | Canolradd |
| Mapgrwban y môr | 2 | 4 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **15** | Anodd |
| Crwban Groeg *Testudo graeca* | 3 | 4 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 (3) | **16 (17)** | Anodd |

**Amffibiaid**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llyffant gwenwynig *Dendrobates spp* *cb (wc)* | 1 | 1 | 3 | 3 | 2 (4) | 1 (3) | 3 | **14 (18)** | Canolradd (Anodd) |
| Llyffant du enfawr *Rhinella marinus* | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | **17** | Anodd |
| Llyffant du bolgoch y dwyrain | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **13** | Canolradd |
| Llyffant gwyrdd y coed Ewropeaidd *Hyla arborea* | 1 | 1 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | **13** | Canolradd |
| Llyffant y coed White | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **14** | Canolradd |
| Salamandr Ewropeaidd *Salamandra salamandra* | 1 | 4 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | **16** | Anodd |
| Salamandr rhesog *Ambystoma mavortium* | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | **15** | Anodd |
| Acsolotl *Ambystoma mexicanum* | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **13** | Canolradd |
| Madfall bolgoch China *Cynops* | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | **13** | Canolradd |

**Pysgod**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pysgodyn aur (ffansi) *Carassius auratus* | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **11** | Canolradd |
| Pysgodyn aur (cyffredin) *Carassius auratus* | 2 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **13** | Canolradd |
| Koi *Cyprinus carpio* | 4 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **15** | Anodd |
| Tetras amryliw *Hyphessobrycon innesi* | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **11** | Canolradd |
| Gypïod *Poecilia reticulatus* | 1 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **10** | Hawdd |
| Pysgod ymladd Siám | 1 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **10** | Hawdd |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Betta splendens* | | | | | | | | | |
| Barfanau rhesog<br>*Barbus pentazona* | 1 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **10** | Hawdd |
| Ciclidau Malawi<br>*Metriaclima spp* | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **12** | Canolradd |
| Pysgod disg<br>*Symphysodon spp* | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 3 | **13** | Canolradd |
| Pysgod osgar<br>*Astronotus ocellatus* | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **13** | Canolradd |
| Ciclidau Midas<br>*citrinellum* | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | **13** | Canolradd |
| Tân-raiod yr afon<br>*Pomatotrygon* | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | **17** | Anodd |
| Pysgod clown<br>*Amphiprion spp*<br>cb (wc) | 1 | 3 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 (3) | **14 (16)** | Canol (cb)<br>Anodd (wc) |
| Morfeirch<br>*Hippocampus spp* | 1 | 1 | 3 | 2 (3) | 2 | 1 (3) | 3 | **13 (16)** | Canolradd<br>(Anodd) |
| Pysgod angel ymerodrol<br>*Pomacanthus imperator* | 3 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 3 | **17** | Anodd |

**Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Copynnod theraffosid<br>*Brachypelma spp*<br>(female) | 1 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 1 (3) | **14 (16)** | Canolradd<br>(Canolradd) |
| Pryfed brigyn | 1 | 1 | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | **10** | Hawdd |
| Cawrfalwod Affricanaidd<br>*Achatina spp* | 1 | 2 | 1 | 2 | 2 | 1 | 1 | **10** | Hawdd |
| Cwrelau caled e.e.<br>*Acropora spp* | 1 | 4 | 3 | 3 | 2 | 1 (3) | 3 | **17 (19)** | Anodd |
| Berdys glanhau<br>*Lysmata spp* | 1 | 1 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | **12** | Canolradd |
| Octopws cyffredin<br>*Octopus vulgaris* | 2 | 1 | 3 | 3 | 2 | 1 | 3 | **15** | Anodd |